**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOLEDD CYMRU

**15fed Mehefin 2009**

## CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR AELODAU – LWFANS GOFAL A CHYNHALIAETH

**Adroddiad gan Colin Everett**
**Clerc i'r Awdurdod Tân ac Achub**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i'r Awdurdod:

(i) ystyried cyflwyno Lwfans Gofal;
(ii) pennu dull priodol ar gyfer hawlio cynhaliaeth;
(iii) derbyn gwybodaeth ddiweddaredig am y codiadau a wnaeth yr awdurdodau cyfansoddol i Lwfansau Sylfaenol a Chyfrifoldebau Arbennig y Cynghorwyr ar gyfer 2008/09.

## Cefndir

2 Yn ei gyfarfod ar Fawrth 16eg 2009, bu'r Awdurdod yn ystyried argymhellion y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a sut i'w cymhwyso i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

3 Bu'r Awdurdod yn ystyried a chymeradwyo Cynllun diwygiedig ar Lwfansau'r Aelodau, a hynny yn unol ag argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac eithrio cyflwyno Lwfans Gofal ac agweddau ymarferol cymhwyso'r lwfans Cynhaliaeth, lle roedd angen rhagor o waith archwiliadol.

4 Hefyd, ychwanegwyd tabl yn atodiad i'r adroddiad (a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar Fawrth 16[eg]), a oedd yn dangos y codiadau a wnaeth yr awdurdodau cyfansoddol i Lwfansau Sylfaenol a Chyfrifoldeb Arbennig y Cynghorwyr ar gyfer 2008/09. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o'r wybodaeth a ddarparwyd yn anghywir.

## Ystyriaethau

*Lwfans Sylfaenol a Lwfans am Gyfrifoldeb Arbennig*

5 Nodwyd yn y cyfarfod nad oedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi cynyddu'r Lwfans am Gyfrifoldeb Arbennig 2.45% fel y nodwyd yn yr Atodiad. Roedd y Lwfans Sylfaenol a'r Lwfans am Gyfrifoldeb Arbennig wedi cael ei godi 2.45% o Ionawr 1[af] 2009 ymlaen. Felly, cyfwerth â 0.61% oedd y cynnydd blynyddol ar gyfer 2008/09 ar y gyfer y Lwfans Sylfaenol a'r Lwfans am Gyfrifoldeb Arbennig.

6 Hefyd, nid oedd sefyllfa Conwy'n gywir. Roedd y sefyllfa yn 2008/09 yn gyfwerth â chynydd blynyddol o 2.04% ar gyfer y ddwy lwfans, gan ddod i rym Fehefin 1[af] 2008.

7 Golyga hyn mai'r cynnydd cyfartalog ar y cyfan trwy'r 6 awdurdod oedd 1.67%, ac mae tabl wedi ei ddiweddaru yn Atodiad 1.

*Lwfans Gofal*

8 Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, bu'r Awdurdod yn ystyried cyflwyno Lwfans Gofal, a phenderfynu:

> "Teimlai'r Aelodau ei bod hi'n fater ddiamod ac efallai byddai diffyg cydraddoldeb os yw'r Aelodau'n gallu ei hawlio gan yr Awdurdod Tân ac Achub ond nid gan eu hawdurdod cyfansoddol. **Cytunodd yr Aelodau i ohirio'r penderfyniad a gofyn i'r Clerc ddarparu adroddiad llawnach yn manylu trefniadau'r awdurdodau cyfansoddol a'u cyfyngiadau am hawlio'r lwfans."**

9 Ynghlwm yn Atodiad 2, ceir crynodeb o'r modd, a ph'un ai y cafodd y Lwfans Gofal ei hawlio o fewn y chwe awdurdod cyfansoddol ai peidio. Gofynnir i'r aelodau ystyried yr wybodaeth hon, a phenderfynu a ddylai Lwfans Gofal gael ei ddarparu o fewn Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau ai peidio.

*Cynhaliaeth*

10 Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, penderfynodd yr Awdurdod:

> "Teimlai'r Aelodau y dylai'r £28 fod ar gael drwy gydol cyfnod 24 awr ac heb fod uchafswm am bob pryd. **Byddai'r Clerc yn darparu rhagor o wybodaeth ar ymarferoldeb hawlio am gynhaliaeth.**

11 Arweiniad yn unig yw'r arweiniad gan y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol, a dewis yr Awdurdod yw'r ffordd i ddefnyddio'r cyfraddau, er heb fod yn uwch na £28 y dydd.

**Argymhelliad**

12 Bod yr Awdurdod yn:

i. nodi ac yn cymeradwyo'r wybodaeth gywir ynghylch y lwfansau, sydd yn y tabl yn Atodiad 1;

ii. derbyn yr wybodaeth sydd yn Atodiad 2, ac yn ystyried p'un ai i gyflwyno Lwfans Gofal ar gyfer Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ai peidio;

iii. cytuno ar ffordd hyblyg a rhesymol o ymdrin â'r lwfans cynhaliaeth, gydag uchafswm ar gael i'w hawlio (â derbynneb), mewn unrhyw gyfnod, heb fod yn uwch na £28.

ATODIAD 1

**Y CODIADAU A WNAETH YR AWDURDODAU CYFANSODDOL I LWFANSAU SYLFAENOL A CHYFRIFOLDEBAU ARBENNIG Y CYNGHORWYR AR GYFER 2008/09**

| CYNGOR | WEDI GWNEUD CYNNYDD CYMHWYSIAD BLYNYDDOL Y LWFANS SYLFAENOL | WEDI GWNEUD CYNNYDD CYMHWYSIAD BLYNYDDOL Y LWFANS CYFRIFOLDEB ARBENNIG |
|---|---|---|
| **CONWY** | 2.04 | 2.04 |
| **GWYNEDD** | 0 | 0 |
| **WRECSAM** | 2.45 | 2.45 |
| **YNYS MÔN** | 0.61 | 0.61 |
| **SIR DDINBYCH** | 2.45 | 2.45 |
| **SIR Y FFLINT** | 2.45 | 2.45 |
| | | |
| **CYFARTALEDD (yr uchafswm y gall ATAGC ei wneud yn 2008/09)** | **1.67** | **1.67** |

(*Uchafswm y codiadau i'r Lwfans Sylfaenol a'r Lwfans am Gyfrifoldeb Arbennig yn ôl Llywodraeth y Cynulliad yw 2.45%)

**LWFANSAU ATAGC**

| | CYFANSWM Y LWFANSAU'N DALADWY YN 2007/08 | UCHAFSWM Y CODIAD % | CYFANSWM Y CYNNYDD BLYNYDDOL | CYFANSWM Y LWFANSAU'N DALADWY YN 2008/09 |
|---|---|---|---|---|
| **LWFANS SYLFAENOL** | £1103.64 | **1.67** | £18.43 | £1122.26 |
| **CYFRIFOLDEB ARBENNIG – CADEIRYDD** | £9451.30 | **1.67** | £157.83 | £9609.13 |
| **CYFRIFOLDEB ARBENNIG – IS-GADEIRYDD** | £7263.90 | **1.67** | £121.80 | £7385.20 |

ATODIAD 2

# Y TREFNIADAU AR GYFER LWFANSAU GOFAL YN YR AWDURDODAU CYFANSODDOL

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**

Wedi i'r Cyngor gymeradwyo hynny ym mis Rhagfyr, bydd yr Awdurdod hwn yn cyflwyno Lwfans Gofal, gan ddod i rym yn y cyfarfod blynyddol nesaf, sef Mai 20, 2009.

Nodir, isod, y cynllun y cytunwyd arno:

Darn o'r Nodiadau Cyfarwyddyd i Aelodau Etholedig.

Gallwch hawlio lwfans gofal i'ch ad-dalu am dreuliau a gafwyd wrth drefnu gofal i blant, neu ddibynyddion dros bymtheg mlwydd oed, os ydych yn bodloni'r Awdurdod fod angen goruchwyliaeth ar y plentyn neu'r dibynnydd a achosodd ichi dreuliau a oedd yn angenrheidiol mewn perthynas â gofalu am y plentyn neu'r dibynnydd hwnnw wrth ichi gyflawni eich dyletswyddau fel Cynghorydd.

Ni chaiff lwfans gofal ei dalu i fwy nag un Cynghorydd ar yr Awdurdod mewn perthynas â gofal i'r un plentyn neu ddibynnydd.
Ni chaiff mwy nag un lwfans gofal ei dalu i'r un Cynghorydd ar yr Awdurdod nad yw'n gallu dangos, er bodlonrwydd rhesymol i'r Awdurdod, fod raid i'r aelod wneud trefniadau ar wahân am ofal i blant neu ddibynyddion gwahanol.

SUT I HAWLIO

Telir Lwfans Gofal wedi cyflwyno'r ffurflen hawlio briodol wedi ei llenwi'n gywir. Y manylion angenrheidiol ar y ffurflen hawlio fydd:

· Eich enw a'ch cyfeiriad, ynghyd â rhif yswiriant gwladol a chyfeiri ar y gyflogres.
· Dyddiad a natur y cyfarfod/ydd
· Amserau – Gadael cartref a Dychwelyd
· Rheswm dros fod angen gofal
· Enw a Chyfeiriad y sawl sy'n darparu'r gofal
· Eich perthynas â chi
· Yr amser a ddechreuodd ac a orffennodd y gofal.
· Nifer yr oriau y darparwyd y gofal ym mhob ymweliad.
· Y cyfanswm a hawlir.
· Eich llofnod.
· Y dyddiad.
· Indemniad sy'n datgan, "Rwy'n datgan imi fynd i'r costau gofal trwy anghenraid, ac rwy'n cytuno y gellir cysylltu â'r sawl sy'n derbyn, fel y nodir ar y dderbynneb, os oes angen."
· "Derbynneb" er mwyn i'r sawl sy'n derbyn lenwi ei h/enw a'i g/chyfeiriad, y cyfanswm a delir iddynt, ac indemniad (uwchben llofnod y gofalwr/aig) sy'n datgan, "Cadarnhaf fy

mod wedi derbyn yr arian fel y nodir, a deallaf y gallai un o swyddogion yr Awdurdod Lleol gysylltu â mi ynghylch y taliad hwn".

(c) PRYD I HAWLIO
Rhaid cyflwyno pob hawliad i'r Adran Gyflogau heb fod yn hwyrach na'r 5ed o'r mis dilynol.
Mae'n bwysig hawlio'n fisol er mwyn bod yn gymorth i gywirder, gwirio a chraffu cyfreithlon (gan y cyhoedd).
Caiff pob hawliad sydd dros 3 mis oed eu hadrodd i Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol ac i arweinydd y grŵp priodol, ac ni chaiff ei dalu ond yn ôl disgresiwn y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad mewn amgylchiadau eithriadol. Ni chaiff hawliadau sydd dros 6 mis oed eu talu dan unrhyw amgylchiadau.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**
Mae'r lwfansau gofal yn dod yn lle'r lwfans dibynyddion. Byddwn yn gweithredu 'ar sail hunandystiolaeth' (felly nid oes angen derbynebau).

**CYNGOR SIR DDINBYCH** – yn talu Lwfans Gofal.

Mae Cynllun Lwfansau Aelodau'r Awdurdod yn datgan -

"Yn amodol ar baragraff 17 (Ni ellir hawlio lwfans dibynyddion gan aelod sy'n derbyn Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig pan fydd y swm yn achlysurol yn fwy na'r swm a amlinellir yn ysgrifenedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a amlinellir yn Atodlen 4 - £15,000 ar hyn o bryd), mae lwfans Dibynyddion ar gael i holl aelodau sy'n unig ofalwyr perthnasau dibynnol. Telir lwfans pan fydd aelod angen darpariaeth gofal i ddibynnydd er mwyn galluogi'r aelod hwnnw i gyflawni unrhyw un o'r dyletswyddau cymeradwy fel y nodwyd yng Nghynllun Lwfansau Aelodau. Rhaid i Swyddog Monitro ardystio fod aelod â'r hawl i lwfans dibynyddion yn dilyn cyflwyno tystiolaeth foddhaol gan yr aelod dan sylw."

Ar hyn o bryd, dim ond i un aelod yr ydym yn talu lwfans dibynyddion.

**CONWY CBC**

**LWFANS GOFAL**

Caiff Aelod etholedig hawlio Lwfans Gofal mewn perthynas â threuliau trefnu gofalu am blant neu ddibynyddion y mae'n angenrheidiol eu gwario wrth gyflawni dyletswyddau'r Aelod hwnnw fel Aelod, yn amodol ar y canlynol:-

(a) Ni chaiff Aelod sy'n derbyn Lwfans am Gyfrifoldeb Arbennig hawlio Lwfans Gofal.

(b) Ni fydd y plentyn dibynnol dan sylw dros 15 oed. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor gytuno'n benodol i dalu Lwfans Gofal mewn perthynas â phlentyn neu ddibynnydd dros 15 oed os yw'n fodlon fod yr oruchwyliaeth ofynnol, sy'n achosi i'r Aelod dalu costau, yn angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau'r Aelod. Penderfynir ar bob achos yn ôl ei haeddiant.

(c) Ni ellir gwneud mwy nag un hawliad mewn perthynas â'r un plentyn neu ddibynnydd.

(d) Ni ellir gwneud mwy nag un hawliad gan unrhyw Aelod unigol, oni bai bod y Cyngor yn fodlon bod rhaid i'r Aelod dan sylw wneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal plant neu ddibynyddion gwahanol.

(e) Bydd swm uchaf y Lwfans Gofal sy'n daladwy i unrhyw Aelod unigol yn cael ei bennu gan y Cyngor a bydd yn cael ei addasu bob blwyddyn yn unol â'r arweiniad ar fynegeio a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ni fydd swm y Lwfans Gofal yn fwy na'r swm uchaf a nodir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**CYNGOR SIR GWYNEDD**

5. Lwfans Gofal

5.1. Telir lwfans gofal i gynghorwyr mewn cysylltiad â threuliau y mae'n angenrheidiol iddynt eu talu am ofalu i blant neu ddibynyddion er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau fel cynghorwyr ac yn amodol ar iddynt gyflwyno cais llwyddiannus am y lwfans yn unol ag amodau a osodir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor.

5.2. Ni thelir lwfans gofal i fwy nag un cynghorydd am ofal i'r un plentyn neu ddibynnydd

5.3. Ni thelir lwfans gofal mewn perthynas â gofal i blentyn sydd dros 15 mlwydd oed

5.4. Ni thelir mwy nag un lwfans gofal i unrhyw gynghorydd.

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

**LWFANSAU GOFAL**

Bydd pob Cynghorydd (yn amodol ar yr eithriadau a'r cyfyngiadau sydd yn Rheol 9(2) o'r Rheoliadau) yn gymwys i gael Lwfans Gofal hyd at uchafswm o £403 y mis, gan ddod i rym ar Fai 12, 2009, mewn perthynas â gofalu am blant neu ddibynyddion, fel sy'n angenrheidiol wrth gyflawni dyletswyddau'r Aelod hwnnw fel Aelod.